**Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**11 MAI 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 11 Mai 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Gladys Healey, Dave Mackie, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Mrs Lynne Bartlett a Lisa Allen

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Mel Buckley (ar ran y Cynghorydd Paul Cunningham)

**YMDDIHEURIADAU:**Wendy White a'r Cynghorydd Ian Roberts

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Mared Eastwood, Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)
Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) (ar gyfer cofnod rhif 6)
Uwch-reolwr (Gwella Ysgolion) (ar gyfer cofnod rhif 7 ac 8)
Uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd (ar gyfer cofnod rhif 8)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd fod y Cyngor wedi penderfynu yn y Cyfarfod Blynyddol y byddai'r Grŵp Llafur yn cadeirio'r Pwyllgor hwn. Cafodd y Pwyllgor wybod mai'r Cynghorydd Teresa Carberry oedd Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd Teresa Carberry yn Gadeirydd y Pwyllgor.

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebwyd y Cynghorydd Carol Preece fel Is-gadeirydd y Pwyllgor gan y Cynghorydd Gladys Healey. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Mel Buckley.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Carolyn Preece yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

4. **COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023 eu cymeradwyo
a gynigiwyd ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey a'r Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

5. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r eitemau a oedd yn cael eu cyflwyno i'r cydgyfarfod blynyddol gyda'r Pwyllgor Trosolwg a chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 29 Mehefin. Gan gyfeirio at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, cadarnhaodd bod yna un newid, Adroddiad Blynyddol GwE a oedd nawr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ei bod yn gobeithio dod â thair eitem ychwanegol i gyfarfod mis Gorffennaf, sef Ysgolion Iach, y Gwasanaethau Prydau Ysgol a'r wybodaeth ddiweddaraf ar y materion TG o amgylch y seilwaith cenedlaethol a'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Wrth gyfeirio at yr Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu, cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Gan gyfeirio at y Grŵp Tasg a Gorffen Parcio Ysgol, cadarnhaodd bod e-bost wedi'i anfon yn ceisio enwebiadau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi ac Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Roedd y Cabinet yn cefnogi ffurfio'r Grŵp Tasg a Gorffen ond roedd yn awgrymu y dylai'r aelodaeth gynnwys nifer o feysydd ar draws Sir y Fflint a chynnwys ardaloedd gwledig a threfol. Roedd hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a byddai'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yn cysylltu ag Aelodau gyda gwybodaeth ar gyfarfod cyntaf y Grŵp Tasg a Gorffen ar ôl ei sefydlu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at yr ymateb a ddarparwyd i'r cwestiynau a godwyd ganddo yn ystod cyfarfod diwethaf ar adroddiad Datblygu Cynllun y Cyngor 2023/28 ynglŷn â chyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol. Diolchodd i swyddogion am yr ymateb ond dywedodd nad oedd yn ateb y cwestiynau a godwyd ganddo. Eglurodd fod ei gwestiynau yn ymwneud â'r ffigyrau llinell sylfaen ar gyfer 2021/22. Roedd yr Uwch Reolwr (Cynnwys a Chynnydd) yn awgrymu ei bod yn darparu'r wybodaeth hon fel rhan o'r

drafodaeth ar yr adroddiad Presenoldeb a Gwaharddiad yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie ac eiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

## 6. PRESENOLDEB A GWAHARDDIADAU

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bosibl bod y ffigyrau yn ymddangos yn bryder, ond nid mater Sir y Fflint yn unig oedd hwn, roedd yn un cenedlaethol. Roedd plant yn ei chael hi'n anodd ailymgysylltu gydag addysg gyda rhai ddim yn dymuno dychwelyd i'r ysgol. Roedd ysgolion yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r problemau hynny gyda gwaith creadigol a sefydlu cysylltiadau gwell gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg a GwE.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) orolwg o'r pwyntiau allweddol ar gyfer 2021/22, oedd yn seiliedig ar y data a gynhelir yn Sir y Fflint gan fod y data cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru wedi'i oedi yn ystod y cyfyngiadau Covid. Roedd presenoldeb yn Sir y Fflint yn parhau islaw lefelau cyn y pandemig oedd yn bryder ar draws holl awdurdodau gyda swyddogion ac ysgolion yn gweithio'n galed i ail-ymgysylltu â'r dysgwyr hynny. Roedd yna gynnydd bach mewn lefelau presenoldeb ar draws ysgolion cynradd Sir y Fflint gyda gostyngiad mewn ysgolion uwchradd, oherwydd lefelau uchel o orbryder ac anawsterau iechyd meddwl. Roedd salwch yn parhau y prif feini prawf ar gyfer absenoldeb a chynhaliwyd trafodaethau gyda'r Penaethiaid i sicrhau eu bod yn herio rhieni'n briodol ar pa un ai i dderbyn y rhesymau a roddwyd dros absenoldeb eu plant ai peidio. Roedd diffyg argaeledd nyrsys ysgol yn heriol ac roedd gwaith yn parhau gyda chydweithwyr iechyd i sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael mewn ysgolion.

Roedd yr Uwch Reolwr yn cyfeirio at bwynt 1.04 o'r adroddiad oedd yn amlygu'r ffordd greadigol yr oedd rhai ysgolion uwchradd yn gweithio i helpu disgyblion wneud y cam cyntaf hwnnw yn ôl i addysg, gyda darpariaeth amgen wedi'i darparu mewn ysgolion a safleoedd cymunedol allanol fel y Canolbwynt Cymunedol. Nid oedd ysgolion yn gallu gwneud hyn eu hunain ac roedd pwynt 1.05 o'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar yr ystod o wasanaethau oedd yn gweithio i'w cefnogi. Gan gyfeirio at Adroddiad Estyn 2019 blaenorol, rhoddodd yr Uwch Reolwr ddiweddariad ar y data disgyblion ar gyfer presenoldeb a'r ymyriadau a dargedwyd gyda'r disgyblion hynny oedd mewn perygl o waharddiad

neu ostyngiad mewn presenoldeb.   Rhoddwyd enghraifft o'r gwaith peilot o flynyddoedd 6 i 7 oedd wedi arwain at lefelau presenoldeb yn cael eu cynnal gyda gorolwg o'r newidiadau a wnaed a leolir ym mhwynt 1.07 yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr fod y broses Cosb Benodedig wedi'i ailsefydlu eleni a'i ddefnyddio i gefnogi presenoldeb.   Roedd 10 Rhybudd Cosb Benodedig wedi eu cyflwyno gyda rhai yn arwain at achos llys ac yn cael eu cadarnhau. Y gobaith oedd y byddai hyn yn pwyso ar rieni bod presenoldeb yn bwysig ac yn cael ei gymryd o ddifrif gan ysgolion a'r awdurdod lleol.  Roedd lefelau presenoldeb yn achosi pryder gyda iechyd meddwl a gorbryder yr her fwyaf wrth symud ymlaen a rhoddodd wybodaeth ar y gwahanol wasanaethau yn cefnogi ysgolion oedd yn cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.  Roedd Ymarfer sy'n Seiliedig ar Drawma yn cael ei hybu ar draws ysgolion a gwasanaethau i gefnogi dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc yn ystod y pandemig a'r effeithiau hirdymor ynghyd â ffactorau cymdeithasol eraill. Gan gyfeirio at y data a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd yr awdurdod yn y chwartel uchaf o bresenoldeb yn genedlaethol ar hyn o bryd yn y 4ydd a'r 5ed safle ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, oedd yn galonogol o'i gymharu â'r lefelau cyn-covid.

Roedd yr Uwch Reolwr hefyd yn cyfeirio at adnoddau, gan egluro bod yna bwysau ariannol presennol ar Wasanaethau Cynhwysiant a Chynnydd oherwydd y niferoedd cynyddol mewn ceisiadau gan ysgolion i ddisgyblion dderbyn cynlluniau addysg yn y cartref unigol. Cyn y pandemig, roedd y nifer oddeutu 30, ond roedd hyn wedi codi i 90 unigolyn angen y lefel uchel honno o gefnogaeth unigol.   Roedd hyn yn bwysau sylweddol, gyda'r gwasanaeth yn defnyddio arian grant ar hyn o bryd, ond cafodd hyn ei amlygu fel pwysau ariannol wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey ynglŷn â'r nifer o swyddogion presenoldeb ar draws Sir y Fflint, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr bod yna 6 Swyddog Lles Addysg a 3 Swyddog Cefnogi Addysg yn y tîm ar hyn o bryd.   Roedd y Cynghorydd Healey hefyd yn awgrymu bod y Swyddog Addysgu yn y Cartref yn derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol i roi amlinelliad o'u gwaith a'r gefnogaeth a ddarperir ganddynt i'r disgyblion hyn.

Mewn ymateb i'r cwestiwn gan y Cynghorydd Dave Mackie ar gasglu data gan y Penaethiaid, roedd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yn amlinellu'r broses a gynhelir o amgylch tymor penodol a gwaharddiadau parhaol.   Roedd yna gamau allweddol yr oedd yn rhaid i'r ysgol eu dilyn, oedd yn cynnwys y rheswm/rhesymau dros y gwaharddiad hwnnw a gafodd eu cofnodi a'u codio o dan ystod o gategorïau.   Yn dilyn trafodaethau yn y Ffederasiynau Penaethiaid, roedd swyddogion a Phenaethiaid wedi adolygu'r strategaethau ymyriad a pholisïau a gweithio i ddatblygu dulliau newydd i gryfhau gweithdrefnau a chefnogi penaethiaid wrth reoli'r sefyllfaoedd anodd hyn.

Roedd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) yn cynghori yn dilyn trafodaethau gyda'r Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd, roedd cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Phenaethiaid Uwchradd i drafod yr heriau hyn, datrys y rhesymau a'r sefyllfaoedd ym mhob ysgol i alluogi dealltwriaeth well o'r heriau ar draws ysgolion Sir y Fflint ac yna edrych am atebion.   Rhoddwyd amlinelliad o'r

sesiynau Ymarfer sy'n Seiliedig ar Drawma a gynhelir gyda Phenaethiaid ar sut gall hyn gael ei ymgorffori ar draws yr ysgolion a galluogi rhannu arfer gorau. Roedd grŵp wedi ei sefydlu i ddeall beth oedd ei angen i ddarparu'r gefnogaeth estynedig i'r disgyblion hynny oedd wedi eu gwahardd yn barhaol i'w galluogi nhw i fod yn llwyddiannus. Bydda ymarfer tebyg yn cael ei gynnal gyda'r sector cynradd.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Mackie am brosesau trywydd cyflym posibl i alluogi'r canlyniad gorau i'r plentyn, eglurodd yr Uwch Reolwr bod prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod yna gyfleoedd cyfartal i bob plentyn gyda phroses glir i gefnogi gweithwyr proffesiynol i wneud y penderfyniad gorau ar gyfer pob plentyn unigol. Roedd y tîm yn ceisio bod mor greadigol ac ymatebol â phosibl o fewn gofynion y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), oedd yn ofyniad annatod i'r awdurdod a'r holl ysgolion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jason Shallcross, dywedodd yr Uwch Reolwr bod y gostyngiad mewn presenoldeb ar draws holl ysgolion ac nid oedd yn ymwneud ag amddifadedd. Roedd hwn yn dueddiad cenedlaethol ar draws y Wlad.

Roedd y Cynghorydd Carolyn Preece yn canmol y tîm yn arbennig gan fod Sir y Fflint yn y chwartel uchaf ar draws Cymru oedd yn profi bod y strategaethau oedd yn cael eu rhoi ar waith yn gweithio, yn arbennig y Strategaeth Perthyn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynglŷn â'r ffigyrau ar gyfer gwaharddiadau yn Nhabl 4 a 5 o'r adroddiad a Chynllun y Cyngor, a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol, roedd yr Uwch Reolwr yn awgrymu bod y wybodaeth ar y data llinell sylfaen ar gyfer 2020-21 a sut roedd hyn yn wahanol i'r data yng Nghynllun y Cyngor, i'w ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Parkhurst hefyd yn gofyn o fewn y data eithrio, a oedd yna grynodeb rhwng plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr y byddai adroddiad ar blant sy'n derbyn gofal yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyd gyfarfod gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mehefin. Eglurodd yn y dadansoddiad o waharddiadau, roedd disgyblion yn cael eu nodi os oeddent yn blant oedd yn derbyn gofal neu ag anghenion dysgu ychwanegol ac y gellir casglu'r wybodaeth hon. Amlinellodd rôl y Rheolwr o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant oedd yn gyfrifol am ofalu am ddata ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i sefydlu a ellir targedu unrhyw un o'r disgyblion hynny i dderbyn cefnogaeth ychwanegol. Cytunodd i gasglu'r wybodaeth honno i allu gwneud cymhariaeth.

Mewn ymateb i sylwadau o amgylch yr argymhellion a wnaed o fewn adroddiad Syr Alasdair McDonald, dywedodd yr Uwch Reolwr bod yr argymhellion wedi eu trafod o fewn y portffolio a gyda chydweithwyr o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd Cynllun Gweithredu wedi'i lunio yn amlinellu'r gofynion i symud tuag at argymhellion yr adroddiad. Cyfeiriodd at y cais am arian grant a wrthodwyd oherwydd bod y model yn seiliedig ar fodel dysgwr bregus yn hytrach na model plant sy'n derbyn gofal amlwg. Roedd trafodaethau wedi eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru a oedd wedi gwrthod symud ar hyn nes byddai'r cyfnod cyllid tair blynedd presennol wedi dod i ben. Gobeithio, yn dilyn y cyfnod hwn, byddai yna gyllid grant ychwanegol ar gael i

gefnogi'r model ysgol rhithiol gan ei fod yn ddrud a byddai mwy o wybodaeth yn cael ei darparu yn y cyfarfod ar y cyd ym mis Mehefin. Cytunodd gyda'r Cynghorydd Parkhurst y dylai gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol ac roedd gwaith yn parhau gyda chydweithwyr o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y cynlluniau yn fanwl iawn.

Roedd y Prif Swyddog yn amlygu'r rhwystr o amgylch y cais aflwyddiannus i Lywodraeth Cymru yr oedd yn teimlo oedd yn gynaliadwy. Eglurodd fod Pennaeth Rhithiol yn oblygiad adnodd sylweddol a bod y cyllid peilot ond yn gyllid tymor byr. Nodwyd bod hyn yn risg ariannol i'r awdurdod lleol ac yn bwysau cost os byddai'r cyllid hwnnw yn dod i ben ac nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cadarnhau y byddai yna gyllid hirdymor gan mai peilot oedd hwn. Yn y cyfamser, roedd y Cynllun Gweithredu wedi'i roi ar waith gydag Uwch Reolwr ymroddedig i'w ddatblygu o fewn yr adnoddau oedd ar gael.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Bill Crease ynglŷn â'r nifer o ddisgyblion nad oedd yn yr ysgol, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr at absenoldeb heb awdurdod a dywedodd bod yna lefel uchel o her gan Benaethiaid pan oedd y rheswm a roddwyd gan y rhiant neu'r gofalwr yn annerbyniol. Roedd hyn yn galluogi'r ysgol i ddatblygu hyn i lawr y llwybr cosb benodedig gan ei fod yn darparu'r dystiolaeth i gefnogi hyn. Er bod y ffigyrau yn achosi pryder, roeddent yn dangos bod yna fwy o her, ac nad oedd Penaethiaid yn derbyn ymateb a wnaed gan y rhiant ble nad oeddent yn teimlo ei fod yn dderbyniol.

Dywedodd y Prif Swyddog bod diogelu pobl ifanc yn rhywbeth yr oedd y portffolio yn ei gymryd o ddifrif, a bod y tîm Cynhwysiant yn ymweld ag ysgolion yn aml iawn ac yn trawsgyfeirio gwybodaeth arall o amgylch person ifanc neu deulu penodol a ble roedd yna bryderon diogelu byddant yn eu dilyn i fyny. Cytunodd yr Uwch Reolwr gan ddweud bod diogelu yn rhan annatod o'r Gwasanaeth Lles Addysg a dywedodd bod yna hefyd swyddog ymroddedig i blant ar goll mewn gofal oedd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned, ysgolion a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd.

Roedd y Cynghorydd Dave Mackie, wrth gyfeirio at y sylwadau a wnaed yn flaenorol gan y Cynghorydd Preece, yn awgrymu bod argymhelliad ychwanegol yn cael ei ychwanegu fel a ganlyn:-

- Bod y Pwyllgor yn hapus i ddysgu bod ffigyrau presenoldeb ar gyfer ysgolion Sir y Fflint o fewn y chwartel uchaf o ran data cymharol ar draws Cymru.

Cafodd yr argymhelliad, sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ynghyd â'r argymhelliad ychwanegol gafodd ei awgrymu gan y Cynghorydd Mackie ei gynnig gan y Cynghorydd Carolyn Preece a'i eilio gan y Cynghorydd Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y data ynglŷn â phresenoldeb a gwaharddiadau yn ysgolion Sir y Fflint a'r camau a gymerodd y swyddogion i hybu cyfranogiad, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn cael ei nodi; a

(b) Bod y Pwyllgor yn hapus i ddysgu bod ffigyrau presenoldeb ar gyfer ysgolion Sir y Fflint o fewn y chwartel uchaf o ran data cymharol ar draws Cymru.

## 7. CEFNOGI PLANT Y LLUOEDD ARFOG MEWN ADDYSG

Wrth gyflwyno'r adroddiad diweddaru, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgol) bod hwn yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021 ac roedd yn cynnwys gwybodaeth ar waith lleol a chenedlaethol a wneir i gefnogi plant y lluoedd arfog mewn ysgolion.

Dywedodd yr Uwch Reolwr fod yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac roedd yn falch fod Jane Borthwick (Uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd) yn bresennol yn y cyfarfod. Eglurodd fod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd yn arwain ar hyn, gan weithio'n agos gydag ysgolion, SSCE a'r Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a thrwy'r gwaith hwn roedd yn bosibl cynyddu'r arian grant oedd yn cefnogi gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion i ddeall eu rolau i gefnogi plant y lluoedd arfog yn well. Roedd hyn hefyd yn galluogi adnoddau a gweithgareddau ymgysylltu i'r dysgwyr hynny. Er mai swm bach o arian yn unig oedd ar gael, roedd yn bosibl gweld yr effaith gadarnhaol yr oedd hyn yn ei gael. Rhoddodd yr Uwch Reolwr wybodaeth ar y gwaith oedd wedi cael ei wneud dros y dair blynedd ddiwethaf i ddeall anghenion plant y lluoedd arfog a gallu darparu cefnogaeth wedi'i thargedu.

Soniodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd am y diwrnod ardderchog a gynhaliwyd yn Nhŷ Calon yng Nglannau Dyfrdwy gyda nifer o ysgolion yn bresennol gyda phlant o 5 i 11 oed yn mwynhau chwarae gemau gyda'i gilydd. Roedd yn galonogol gweld rhieni y lluoedd arfog yn bresennol hefyd. Yn dilyn y digwyddiad hwn roedd prosiect cyfaill gohebol yn cael ei sefydlu fel y gallai'r plant gadw mewn cysylltiad, yn arbennig y sawl sy'n symud i fyny i'r ysgol uwchradd. Roedd gwaith yn parhau i godi proffil plant y lluoedd arfog mewn addysg a darparu cefnogaeth iddyn nhw a'u teuluoedd. Roedd hyn yn gadarnhaol iawn ac roedd digwyddiad arall wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin yn Ysgol Uwchradd y Fflint gyda mwy o ddysgwyr ysgol uwchradd yn cymryd rhan.

Diolchodd y Cynghorydd Bill Crease i swyddogion am yr adroddiad ac roedd yn falch o weld effaith gadarnhaol y gefnogaeth ar blant y lluoedd arfog ac roedd yn darparu amlinelliad o'i brofiad personol ei hun.

Diolchodd y Prif Swyddog i'r Uwch Reolwr a'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd am eu gwaith gyda phlant y lluoedd arfog mewn ysgolion. Hefyd, estynnodd wahoddiad i Aelodau'r pwyllgor sy'n dymuno mynychu'r digwyddiad ym mis Mehefin ac roedd yr uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd yn cytuno i gysylltu â'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu i ddosbarthu'r wybodaeth i Aelodau.

Roedd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd hefyd yn cynnig y cyfle i Aelodau ymuno â'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r rhanddeiliaid eraill. Roedd y Cynghorydd Dave Mackie a'r Cadeirydd wedi rhoi eu henwau ymlaen.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'i eilio gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi derbyn lefel briodol o sicrwydd ynglŷn â gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuenctid i gefnogi ysgolion sydd â phlant y lluoedd arfog.

## 8. MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB

Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) bod yr adroddiad yn rhoi gorolwg o effaith tlodi a bwlch cyflawni i ddysgwyr ar draws Cymru rhwng y rhai o aelwydydd mwy cefnog i'r rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig. Roedd hyn wedi bod yn her ar draws Cymru ers nifer o flynyddoedd ac wedi'i amlygu ers y pandemig gyda Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais yn thema allweddol ar gyfer y portffolio yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023/28.

Roedd yr Uwch Reolwr wedi cyfeirio'r Aelodau at adran 1 o'r adroddiad oedd yn amlygu'r dangosyddion cenedlaethol oedd yn mesur cynnydd a'r prif ganfyddiadau o'r ymchwil diweddar ar effeithiau anghydraddoldebau addysgol. Roedd pwynt 1.07 yn yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar y ffocws cenedlaethol a'r ymchwil o effeithiau'r pandemig, gyda phwyntiau 1.08 ac 1.09 yn rhoi gwybodaeth ar sut yr oedd ysgolion yn gallu defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gael mynediad i gyllid i gefnogi'r disgyblion hyn. Roedd Estyn yn gwerthuso sut yr oedd ysgolion yn defnyddio'r cyllid hwn ac roedd gan yr awdurdod broffil cryf yn y cyswllt hwn. Yna, adroddodd yr Uwch Reolwr ar enghreifftiau o arfer da o'r Tîm Dysgu Oedolion yn y Gymuned, y Tîm Ysgolion Iach a'r ymrwymiad i bob plentyn ysgol dderbyn pryd ysgol am ddim erbyn 2024.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dave Mackie, cytunodd yr Uwch Reolwr ei bod yn bwysig sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael i alluogi'r awdurdod i ymgymryd â chefnogaeth yn effeithiol. Roedd yn anodd cymharu Cymru gyda Lloegr gan fod Cymru yn cynnwys prosesau ychydig yn wahanol, canlyniadau, prosesau arholi a'r cwricwlwm newydd. Y prif thema oedd bod y ddwy genedl angen gwella gyda'r ddwy yn dechrau o bwynt anfantais gyda dysgwyr yn cynnwys mwy o rwystrau ac nid yn cyflawni'r un lefelau â'r dysgwyr hynny nad oedd wedi eu hanfanteisio. Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) wedi adolygu hyn ac yn edrych ar ffyrdd i gyflymu'r cynnydd ar draws Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at y data ONS oedd yn nodi nad oedd plant difreintiedig oedd â'r un cymwysterau addysg yn cyflawni'r un fath o ran cyflogau uwch a chyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd. Roedd yn ymddangos mai'r rheswm oedd ymgysylltu â'r farchnad lafur ac roedd yn meddwl tybed a ellir gwneud mwy o ran profiad gwaith ac ymgysylltu gyda'r diwydiant i alluogi plant difreintiedig i gael y sgiliau cymdeithasol ynghyd ag addysg i'w galluogi i lwyddo.

Cytunodd yr Uwch Reolwr gyda'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Parkhurst yn dweud bod gwaith yn cael ei wneud i adolygu'r meysydd hyn i gyd, cysylltu â chydweithwyr ar draws Gogledd Cymru ar y Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yr Ymgynghorydd Dysgu Ôl-16 a'r Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd. Byddai hyn yn galluogi dealltwriaeth well o'r farchnad lafur, cyfleoedd gwaith a dyheadau gyrfa oedd hefyd yn cynnwys y Rhwydwaith Seren ar gyfer gwneud cynnydd i fynd i'r brifysgol i ddysgwyr mwy galluog. Hefyd, bwriadwyd datblygu cysylltiadau cryfach gyda'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod gan Sir y Fflint gynrychiolaeth gryfach i weithio gydag ysgolion. Cytunodd i ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y gwaith hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Swyddog fod hyn wedi'i drafod yn ddiweddar mewn cyfarfod Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac roedd yn flaenoriaeth uchel ar gyfer y portffolio. Roedd yr adroddiad yn dangos bod hwn yn fater cenedlaethol a bod y Cyngor yn edrych ar beth y gellir ei wneud yn lleol i fynd i'r afael â hyn. Nid oedd ysgolion yn gallu gwneud hyn eu hunain ac roedd yr adroddiad yn amlygu'r ystod o strategaethau yr oedd y Cyngor yn ceisio eu mabwysiadu i gefnogi ysgolion. Roedd hyn yn dechrau yn yr ystafell ddosbarth gydag addysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr oedd yn bodloni eu hanghenion unigol. Cyfeiriodd at wella ysgolion a'r gwaith gyda GwE i godi ansawdd addysgu yn gyson mewn ystafelloedd dosbarth i alluogi disgyblion i gyflawni eu cymwysterau a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi ar hyd eu llwybrau i brentisiaethau, coleg, prifysgol neu'r byd gwaith. Roedd gwaith Dysgu Cymunedol Oedolion yn strategaeth allweddol arall oedd yn cefnogi pobl ifanc yn ogystal â theuluoedd a rhieni gyda chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu addysgol i'w galluogi i wneud cynnydd yn eu bywydau gwaith.

Cyfeiriodd Mrs Lynne Bartlett at y trydydd paragraff ar dudalen 54 o'r adroddiad oedd yn amlygu'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a gofynnodd a oedd y rhesymau dros y cynnydd yn hysbys. Yn flaenorol, roedd y cyllid a dderbyniwyd gan Sir y Fflint yn seiliedig ar y lefel o gyflogaeth uchel ac roedd yn bryderus fod Sir y Fflint nawr yn agos at gyfartaledd Cymru o ran prydau ysgol am ddim. Roedd yna lefelau uwch o dlodi yn Sir y Fflint a gofynnwyd a ddylid derbyn mwy o arian i gefnogi hyn.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog bod y rhesymau dros y cynnydd mewn prydau ysgol am ddim yn amrywio gydag agweddau o gyflogaeth, teuluoedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi, yr argyfwng costau byw a phrisiau bwyd. Y portffolio oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfraniadau yn cael eu gwneud yn strategol drwy ei bolisïau i gefnogi ysgolion a sicrhau bod y drafodaeth yn fyw gyda'u hysgolion.

Roedd y Cynghorydd Bill Crease yn siarad am ei brofiad personol a'r ddealltwriaeth bod addysg y brif ffordd i symud oddi wrth yr amgylchedd difreintiedig. Dywedodd nad oedd hyn yn ymwneud â thlodi yn unig a bod y dyhead i weithio i gael rhywbeth gwell wedi'i golli gan genhedlaeth o rieni a theidiau a neiniau. Roedd rhan fawr o'r broblem y tu allan i'r ysgol ac ymgysylltwyd â rhieni, teidiau a neiniau a gofalwyr ar y llwybr maith hwn. Eglurodd fod Cymru a'r Alban yn derbyn mwy o arian drwy Fformiwla Barnett na Lloegr felly roedd yn ymwneud ag ymgysylltu â phobl a chymdeithas yn gyffredinol ac ni fyddai'n cael ei ddatrys nes mynd i'r afael â hynny.

Roedd Mrs Lisa Allen yn teimlo fod y pandemig Covid wedi amlygu'r diffyg hygyrchedd llyfrau, cyfrifiaduron, mynediad i'r rhyngrwyd, mannau tawel i astudio, mannau diogel i gysgu ac argaeledd bwyd yn y cartref. Gofynnodd a oedd mwy o ddulliau o dan arweiniad cymunedol wedi eu hystyried a bod dysgu o fewn y teulu hefyd yn allweddol i dorri materion rhyng-genhedlaeth i lawr. Cyfeiriodd at siop cyfnewid gwisg ysgol yn ei hysgol leol oedd yn helpu rhieni. O ran prydau ysgol am ddim cyffredinol, gofynnodd a oedd yna bryder o amgylch y gostyngiad mewn arian grant a beth oedd yn cael ei roi yn ei le i sicrhau nad oedd hynny'n digwydd ac a oedd rhieni yn ymwybodol ei bod yn dal yn ofynnol iddynt ymgeisio am yr arian grant hwnnw.

Ymatebodd yr Uwch Reolwr bod yna adroddiad ar weithgareddau ymgysylltu oedolion a gyflwynir i'r Tîm Dysgu Oedolion yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf ac amlinellodd y byddai hynny'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad. Roedd prydau ysgol am ddim wedi eu cysylltu â'r Grant Datblygu Disgyblion ac roedd rhieni yn cael eu hannog i barhau i ymgeisio.

Dywedodd y Prif Swyddog bod hyn yn risg i'r portffolio. Roedd y Tîm Budd-daliadau Lles yn cefnogi rhieni i gael yr holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt oedd yn cynnwys prydau ysgol am ddim. Byddai cyfathrebu ar hyn yn parhau drwy blatfform cyfryngau cymdeithasol y Cyngor a'r wefan i hybu'r negeseuon allweddol hynny oherwydd os byddai ffigwr hawl prydau ysgol am ddim yn gostwng byddai'n effeithio ar y cyllid yr oedd ysgolion yn ei dderbyn. Ar draws ysgolion Sir y Fflint roedd yna draddodiad hir a balch o Ddysgu fel Teulu a'r ymgysylltu yn digwydd mewn ysgolion ac roedd y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn darparu cyfleoedd ychwanegol i rieni. Gan gyfeirio at wisg ysgol, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i leihau'r gost o wisg ysgol drwy ddileu logos ac roedd ysgolion yn cael eu hannog i gymryd sylw o hyn ac roedd yn darparu gwybodaeth ar gysylltu cynlluniau cyfnewid gwisg ysgol yn y gymuned. Roedd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda chydweithwyr Gwasanaethau Stryd i allu casglu gwisg ysgol diangen o gartrefi pobl neu Ganolfannau Ailgylchu Aelwydydd gyda chais am arian wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru drwy'r economi gylchol i gefnogi hyn. Byddai'r eitemau hyn yn cael eu casglu gan y Gwasanaethau Stryd yna'n cael eu golchi, eu didoli a'u trefnu gan NEWydd i'w ailddosbarthu i ysgolion. Yn ystod y pandemig, roedd y portffolio yn llwyr ymwybodol o deuluoedd nad oedd yn gallu cael mynediad i ddyfeisiau na band-eang a thrwy waith yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Cynradd roedd ysgolion yn gallu benthyg offer a dyfeisiau MiFi oedd yn eu galluogi i gael mynediad i Wi-Fi hefyd. Roedd Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn haen allweddol i fynd i'r afael â thlodi i alluogi disgyblion gael mynediad i'r dyfeisiau hyn i gefnogi eu haddysg. Roedd aelodau wedi eu cyfeirio i bwynt 1.10 yn yr adroddiad oedd yn amlinellu pa mor bwysig oedd deall sut oedd y diwrnod ysgol, blwyddyn neu ddigwyddiadau yn effeithio ar deuluoedd oedd yn dioddef tlodi. Roedd y Comisiynydd Plant wedi hybu'r ymgyrch “Gofyn i Ceri” i ysgolion aros a meddwl wrth gynllunio digwyddiadau, teithiau, prom ac ati i ddeall sut oedd y digwyddiadau hyn yn effeithio ar deuluoedd mewn tlodi.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Preece ei bod yn sefyllfa ofnadwy a'i bod yn awyddus i weld effeithiau'r ymgyrch “gofyn i Ceri” mewn ysgolion. Gofynnodd a oedd yn bosibl derbyn adroddiad dilyniant y flwyddyn nesaf yn amlinellu effeithiau o'r ymgyrch hwnnw.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'i eilio gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi derbyn lefel briodol o sicrwydd ynglŷn â gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuenctid i gefnogi ysgolion fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfanteisio ar eu dysgwyr.

**9. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.48pm)

..............................

**Y Cadeirydd**